# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun, 19 Mawrth 2012 yn Siambr Dafydd Orwig, Cyngor Gwynedd, Caernarfon. Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am.

**PRESENNOL**

| Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| S Frobisher (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| A M Jones (Is-Gadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| P R Edwards | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| P C Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G James | Cyngor Sir y Fflint |
| N M Jones | Cyngor Sir y Fflint |
| J A Kelly | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D Mackie | Cyngor Sir y Fflint |
| A Minshull | Cyngor Sir y Fflint |
| J V Owen | Cyngor Sir Ynys Môn |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| T Roberts | Cyngor Gwynedd |
| J R Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Thomas | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G O Williams | Cyngor Gwynedd |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C P Everett (Clerc a Swyddog Monitro yr Awdurdod); K W Finch (Trysorydd yr Awdurdod); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); C Hanks, P Claydon ac R Simmons (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G Brandrick (Uwch Reolwr Gweithrediadau); R Fairhead (Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygu); G W Griffiths (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); D Bond (Rheolwr yr Adran Fflyd); S Jones (Ymgynghorydd Cydraddoldeb); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau) a S Jones (Cynorthwyydd Cyswllt Aelodau).

YMDDIHEURIADAU

| Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| P Jeffares | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| E M Jones | Cyngor Gwynedd |
| D Kelly | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| L Roberts | Uwch Reolwr yr Ystafell Reoli a Pharhad Busnes |

Cyn i'r cyfarfod ddechrau, dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau mai dyma gyfarfod olaf PSTC Colin Hanks. Cafwyd araith fer gan y Cadeirydd i ddiolch iddo am ei waith i GTAGC, yn enwedig mewn perthynas â'r Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd a phrosiect Wrecsam. Ar ran yr holl Aelodau, dymunodd y Cadeirydd yn dda iddo i'r dyfodol. Diolchodd PSTC Hanks i'r Aelodau a'i gydweithwyr am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd.

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau fod y Cyng. P R Edwards yn dod yn lle'r Cyng. W P Roberts fel cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy oherwydd salwch.

1 DATGANIADAU O FUDDIANT

1.1 Dim.

2 RHYBUDD O FATERION BRYS

2.1 Nid oedd unrhyw faterion brys.

3 COFNODION

3.1 Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2011 i'w cymeradwyo.

3.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

4 MATERION YN CODI

4.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

5 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

5.1 Roedd adroddiad y Cadeirydd yn rhestru'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau y bu'r Cyng. S Frobisher a'r Cyng. A M Jones ynddynt rhwng 16 Rhagfyr 2011 a 19 Mawrth 2012 yn rhinwedd eu swyddi fel Cadeirydd ac Is-Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

5.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 Y SEFYLLFA O RAN Y GYLLIDEB YN GENEDLAETHOL – STRATEGAETH EFFEITHLONRWYDD A GWELLA LLYWODRAETH CYMRU

6.1 Atgoffwyd yr Aelodau gan y Clerc fod hon yn eitem sefydlog ar yr agenda er mwyn i'r Aelodau fod yn ymwybodol o unrhyw faterion cenedlaethol a allai effeithio ar yr Awdurdod Tân ac Achub. Ar hyn o bryd, mae'r gwaith yn ymwneud ag asedau a chaffael, ac felly ni fydd yn effeithio ar yr ATAau.

6.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

7 LLEOLIAD Y PEIRIANNAU YSGOL AC ESGYNLAWR

7.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad a oedd yn gofyn i'r Aelodau ystyried argymhelliad y Panel Gweithredol ynglŷn â lleoliad y tri pheiriant ysgol ac esgynlawr a fydd ar ôl yn y dyfodol. Ar y pryd, roedd y peiriannau wedi eu lleoli yn Wrecsam, y Rhyl, Llandudno a Bangor.

7.2 Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa eu bod wedi penderfynu ar 18 Hydref 2010 i newid yr amser y mae disgwyl i beiriant ysgol ac esgynlawr gyrraedd digwyddiad, sef o 20 munud i 30 munud. Oherwydd y penderfyniad hwn, roedd yr Aelodau wedi cael gwybod na fyddai angen cael peiriant yn lle'r un sydd yn Wrecsam pan fydd hwnnw'n dod i ddiwedd ei oes ddefnyddiol ym mis Mawrth. Felly, byddai tri pheiriant ar ôl, ac roedd yn rhaid i'r Aelodau benderfynu ble i leoli'r tri pheiriant hynny.

7.3 Dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth yr Aelodau nad dyletswydd absoliwt dan y ddeddfwriaeth oedd y safon cyrraedd 30 munud, ond yn hytrach, un a osodwyd yn lleol gan yr Awdurdod. Nodwyd bod yr awdurdodau tân ac achub yn symud draw oddi wrth safonau llym yn seiliedig ar amser, gan fod hynny'n aml yn creu anghysonderau. Mae'r Gwasanaeth yn ymdrechu i ymateb i bob digwyddiad mor fuan ac effeithlon ag y bo modd.

7.4 Roedd y Panel Gweithredol wedi bod yn trafod y mater yn fanwl yn ei gyfarfod ar 6 Chwefror, gan ystyried cyngor a gafwyd gan y swyddogion ynglŷn â'r opsiynau ar gyfer lleoli'r peiriannau yng Ngogledd Cymru gyda'r risg leiaf. Cynhwyswyd rhagor o wybodaeth am ystyriaethau'r ochr weithredol yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod o'r Awdurdod. Argymhelliad y Panel Gweithredol oedd y dylid lleoli'r tri pheiriant sydd ar ôl yn Wrecsam, y Rhyl a Bangor.

7.5 Mynegwyd pryderon gan rai yn ardal Llandudno am symud peiriant sydd wedi ei leoli yno petai'r argymhelliad yn cael ei gymeradwyo. Cyflwynwyd deiseb gyda 403 o enwau, ac roedd y Prif Swyddog Tân wedi derbyn chwe darn o ohebiaeth gan aelodau o'r cyhoedd, a chwe llythyr gan gadeiryddion fforymau a gwleidyddion. Ymddangosodd llythyrau yn y wasg leol hefyd. Roedd copïau o'r holl ohebiaeth wedi eu cynnwys fel atodiadau i'r papur.

7.6 Aeth PSTC Claydon gyda'r Cadeirydd a Rheolwr Cefnogi'r Grŵp Gweithredol i gyfarfod o Gyngor Tref Llandudno ar 13 Mawrth, ac roedd cynnig tebyg i fynychu cyfarfod wedi ei wneud i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, ond gwrthodwyd hyn gan Gadeirydd y cyngor.

7.7 Teimlai'r Clerc ei bod yn bwysig tynnu sylw'r Aelodau at y ffaith eu bod yn gwbl ymwybodol pan benderfynwyd newid y safon cyrraedd o 20 munud i 30 munud mai'r canlyniad fyddai peidio â chael pedwerydd peiriant newydd ym mis Mawrth 2012. Ar ôl nodi'r pryderon lleol, dywedodd y Clerc ei bod yn ddyletswydd ar bob Aelod i wneud penderfyniad yn seiliedig ar fuddiannau ardal Gogledd Cymru gyfan, ac nid eu hardal eu hunain. Dywedodd y Clerc fod yn rhaid i'r Aelodau fod yn fodlon eu bod yn dewis yr opsiwn sydd â'r risg leiaf.

7.8 Roedd y Cyng. Mackie yn cymeradwyo'r ddeiseb a ddaeth i law, ond roedd yn dweud yn yr adroddiad mai peiriant Llandudno oedd yn cael ei ddefnyddio yn y nifer isaf o ddigwyddiadau, a theimlai'r Cyng. Mackie fod yn rhaid ystyried pwysigrwydd hyn wrth benderfynu. Yn ôl yr wybodaeth a gyflwynwyd, teimlai y dylid lleoli peiriant naill ai yn Wrecsam neu yng Nglannau Dyfrdwy.

7.9 Awgrymwyd y dylai'r penderfyniad gael ei wneud gan y swyddogion, a hynny'n seiliedig ar eu gwybodaeth hwy. Ond, esboniodd y Prif Swyddog Tân ei gynllun dirprwyo ac nad oedd yn eglur am y mater hwn, ond barn y PST oedd bod elfenau gwleidyddol i'r mater ac felly yr Aelodau a ddylai wneud y penderfyniad, a hynny yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd.

7.10 I ateb cwestiwn y Cyng. P R Edwards ynglŷn ag ymestyn oes peiriant, darparodd y PSTC Claydon a Rheolwr y Fflyd ragor o wybodaeth i esbonio pam nad oedd hyn yn bosibl. Roedd ugain mlynedd o oes ddefnyddiol i beiriant yn safon cydnabyddedig yn y diwydiant, a byddai lefel uchel o risg y tu hwnt i hynny.

7.11 Holodd y Cyng. Thomas am ystadegau'r presenoldeb rhagnodedig (PDA) a oedd yn yr adroddiad, ac a oedd yn dangos bod ardal Conwy wedi cael 60% o'r presenoldeb rhagnodedig yng Ngogledd Cymru. Cytunodd bod angen peiriant ym Mangor oherwydd yr orsaf bŵer niwclear yn Ynys Môn. Dywedodd mai tai amlfeddiannaeth yw'r rhan fwyaf o'r adeiladau lefel uchel yn y Rhyl, ac felly byddai'r trigolion yn gallu adnabod eu ffordd o gwmpas eu cartrefi petai argyfwng. Fodd bynnag, gwestai oedd y rhan fwyaf o'r adeiladau uchel yn Llandudno, ac felly roedd y risg yn uwch o lawer i ymwelwyr yn y gwestai hyn wrth iddynt geisio gadael yr adeiladau petai tân. Felly, yn ei farn ef, roedd yn hanfodol cael peiriant yn Llandudno.

7.12 Esboniodd y Prif Swyddog Tân mai ffordd ar gyfer yr ochr weithredol oedd y presenoldeb rhagnodedig i sicrhau bod gan y Gwasanaeth ymateb wedi ei nodi o flaen llaw fel nad oes raid i'r sawl sy'n trin yr alwad wneud y penderfyniad. Nid nifer yr adegau y mae disgwyl i beiriant gael ei ddefnyddio oedd y presenoldeb rhagnodedig. Cafodd yr Aelodau wybod bod y peiriant wedi troi allan ar adeg y digwyddiad angheuol diweddar yn Llandudno, ond ni chafodd ei ddefnyddio, a dyma'r sefyllfa yn aml mewn digwyddiadau yn Llandudno.

7.13 Rhoddodd y PSTC Claydon wybod i'r Aelodau fod modd cyrraedd gwestai Llandudno ar hyd y promenâd ond nad oedd modd cyrraedd y tu cefn i'r eiddo hynny. Felly, roedd yn hanfodol i bob gwesty arddangos gwybodaeth diogelwch tân yn eglur. Un o fanteision gwestai Llandudno oedd eu bod yn cael eu rheoli'n dda, ac yn cwrdd â gofynion y rheoliadau tân.

7.14 Atgoffwyd yr Aelodau mai perchnogion y gwestai oedd yn gyfrifol am sicrhau bod ganddynt asesiadau risg a chynlluniau yn ei lle er mwyn galluogi pobl i fynd allan o'r adeilad petai tân.

7.15 Cyfeiriodd y Cyng. P C Evans at y mapiau yn Atodiad FRA1, a gofyn pam fod nifer o gyfuniadau o dri lleoliad ar gyfer y peiriannau ond nad oedd dim un yn dangos Llandudno, Wrecsam a Bangor. Holodd hefyd pam ei bod yn

ymddangos bod peiriant Wrecsam o fewn ei ardal 30 munud yn gallu cyrraedd cyn belled ag Ellesmere Port, ond nad oedd unrhyw gyfeiriad at allu peiriant Caer i ymorol am Ogledd Cymru, a ph'un ai yr oedd cytundeb i ddefnyddio peiriant Caer. Esboniodd y Prif Swyddog Tân fod y map yn dangos ble y gallai'r peiriant gyrraedd, ac nid oedd yn golygu bod cytundeb gyda Swydd Gaer.

7.16 Roedd y Cyng. P C Evans yn bryderus fod peiriant y Rhyl wedi cael ei anfon allan ond heb fod â chriw 8 gwaith yn ystod y deunaw mis diwethaf. Felly, holodd a oedd hyn yn golygu bod y gorsafoedd hynny sydd â pheiriannau arbenigol eraill yn gallu cael trafferth criwio mwy nag un peiriant arbenigol ar y tro. Holodd hefyd am waith cynnal a chadw'r peiriannau.

7.17 Esboniodd PSTC Claydon mai peiriant o rywle arall oedd wedi troi allan at ddigwyddiadau peiriant y Rhyl y cyfeiriwyd atynt, a chyrhaeddwyd y digwyddiadau o fewn 24 munud. Mae gan nifer o orsafoedd beiriannau arbenigol eraill, gan gynnwys Llandudno, a chadarnhaodd PSTC Claydon y gallai pob un gael ei neilltuo i unrhyw ddigwyddiad yn y gogledd ni waeth pryd. Bydd y gwaith o gynnal a chadw'r peiriannau'n cael ei wneud yn y dyfodol ar yr orsaf er mwyn eu serfisio heb darfu. Hefyd, gwneir trefniadau gyda Swydd Gaer i ofalu nad yw peiriannau Swydd Gaer a Gogledd Cymru yn cael eu serfisio yr un diwrnod.

7.18 Dywedodd y Cyng. M Ll Davies fod pobl yn mynnu cyfeirio at y peirant ysgol ac esgynlawr fel peiriant i achub pobl; ond yn ôl y ffigyrau, cafodd ei ddefnyddio'n amlach i achub anifeiliaid. Esboniodd y Prif Swyddog Tân nad cerbyd 'ymateb brys' ydoedd, a'i fod wedi ei ddefnyddio'n bennaf yn y blynyddoedd diwethaf fel ffordd i godi dŵr uwchben adeilad, a'i fod hefyd yn cael ei ddefnyddio mewn digwyddiadau achub nad oedd yn ymwneud â thân.

7.19 Dywedodd y Cyng. A M Jones fod trafodaeth ystyrlon wedi ei chynnal, ac mai'r brif ystyriaeth oedd ymorol am yr ardal ehangaf gyda'r adnoddau a oedd ar gael. Ar ôl clywed yr holl wybodaeth a ddarparwyd gan y swyddogion, roedd o'r farn mai'r opsiwn gyda'r risg leiaf oedd lleoli'r peiriannau yn Wrecsam, y Rhyl a Bangor.

7.20 Gofynnodd y Cyng. P R Edwards i'r Aelodau ystyried oedran yr adeiladau yn Llandudno, gan fod y rhan fwyaf o'r gwestai yn rhai yn dyddio o oes Fictoria. Hefyd, o ran y rhan fwyaf o'r trigolion yn yr ardal, mae llawer o fflatiau uchel yn Llandrillo yn Rhos gyda phobl oedrannus yn byw ynddynt. Hefyd, teimlid bod risg fawr na fyddai'r peiriannau'n cyrraedd ardal Conwy o fewn 30 munud oherwydd traffig a gwaith ar yr A55, ac fe allai hyn gael effaith ddifrifol ar yr amser a gymerai i gyrraedd digwyddiadau. Hefyd, dywedodd y Cyng. P R Edwards fod pryder gwirioneddol yn y gymuned am y mater, a bod pobl yn bryderus iawn ynglŷn â'r sefyllfa petai digwyddiad difrifol lle byddai angen yr adnodd hwn.

7.21 Gofynnodd y Cyng. J V Owen i'r Aelodau a oeddent yno i wasanaethau rhai rhannau o Ogledd Cymru, ynteu'r holl ardal. Roedd ef dan y dealltwriaeth fod yn rhaid i'r Awdurdod ystyried lles yr ardal drwyddi draw, ac y dylai'r peiriannau hyn fod mewn lleoliadau ar gyfer ymateb i argyfyngau o fewn

amser rhesymol. Nid torri costau a wneid, gan mai un gyllideb oedd ar gyfer Gogledd Cymru drwyddi draw, a theimlai'r Cyng. Owen y byddai pobl Gogledd Cymru yn fwy pryderus petai raid cael gwared ar adnoddau ledled y rhanbarth er mwyn cael peiriant ag ysgol ac esgynlawr i ddarparu gofal i un ardal. Roedd yn derbyn cyngor y swyddogion, ac yn cytuno ynglŷn â pherchnogion gwestai. Atgoffodd y Cyng. Owen yr aelodau am y gwaith a wnaed ar atal tân a'r holl archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a gynhaliwyd, gyda'r gobaith y byddai'r Aelodau'n cofio mai eu swyddogaeth oedd cefnogi Gogledd Cymru gyfan, nid eu hardaloedd eu hunain yn unig.

7.22 Daeth y Cadeirydd â'r drafodaeth i ben trwy ddiolch i'r Aelodau am y ddadl dda a gafwyd yn y cyfarfod ac yn y cyfarfodydd blaenorol, a gofynnodd am gynnig i ddod gerbron.

7.23 Cynigiodd yr Is-Gadeirydd fod yr Aelodau'n cytuno ar leoliad y Peiriannau Ysgol ac Esgynlawr yn y dyfodol fel yr argymhellodd y Panel Gweithredol, sef Bangor, y Rhyl a Wrecsam fel yr opsiwn gyda'r risg isaf. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Mackie.

7.24 O blaid: 16.
Yn erbyn: 4, sef y Cynghorwyr P C Evans, P R Edwards, R E Parry ac M Thomas.
Yn ymatal: Neb.

7.25 **PENDERFYNWYD, trwy bleidlais fwyafrifol, gytuno ar leoliad y Peiriannau Ysgol ac Esgynlawr yn y dyfodol fel yr argymhellwyd gan y Panel Gweithredol, sef Bangor, y Rhyl a Wrecsam fel y dewis sydd â'r risg leiaf er mwyn gwasanaethu cymunedau Gogledd Cymru.**

8 Y CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL: RHEOLIADAU DEDDF CYDRADDOLDEB 2010 (DYLETSWYDDAU STATUDOL) (CYMRU) 2011

8.1 Cyflwynodd PSTC Simmons yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol i ymateb i ofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

8.2 Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn nodi amcanion cydraddoldeb Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i ymateb i ofynion deddfwriaethol Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Mae cyhoeddi'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl yn ofyniad cyfreithiol a fydd yn cael ei reoleiddio gan y Comision Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Rôl y Comisiwn dan y gyfraith newydd yw amddiffyn, gorfodi a hyrwyddo cydraddoldeb. Bydd y rôl yma'n cael ei chyflawni trwy ddarparu canllawiau, rheoliadau a gweithgarwch gorfodaeth.

8.3 Caiff y cynllun gyhoeddusrwydd, a chaiff ei hyrwyddo'n fewnol ac yn allanol er mwyn codi ymwybyddiaeth am y gwaith y mae'r Awdurdod yn ei wneud. Caiff y gweithgarwch ei fonitro er mwyn asesu'r effaith y mae'r cynnydd yn ei gael ar y cyhoedd ac ar weithwyr, ac adroddir yn ei gylch bob blwyddyn i'r Awdurdod.

8.4 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod i'r Aelodau fod yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb wedi chwarae rhan flaenllaw yn llunio'r ddogfen. Roedd Sue

Jones, a oedd yn bresennol yn y cyfarfod, wedi bod yn gyfrifol, gyda'i chymheiriaid yn y Canolbarth a'r Gorllewin a'r De, am lunio'r ddogfen a fyddai'n galluogi'r Awdurdod i gydymffurfio â'i ymrwymiadau statudol.

8.5 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi cynnwys yr adroddiad;**

**(ii) cymeradwyo'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol i'w gyhoeddi ar wefan y Gwasanaeth.**

9 ALLDRO AMCANOL 2011-2012

9.1 Rhoddodd y Trysorydd wybod i'r Aelodau am yr alldro amcanol amcangyfrifiedig am y flwyddyn ariannol 2011-2012. Mae'r tanwariant amcangyfrifiedig o £634,731 yn ganlyniad i reolaeth ofalus yr Awdurdod o'i gyllideb yn ystod y flwyddyn.

9.2 Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am yr amrywiadau i'r gyllideb, ac nid oedd gan yr Aelodau unrhyw gwestiynau eraill.

9.3 **PENDERFYNWYD nodi'r tanwariant amcanol o £634,731.**

10 IAWNDAL YN ÔL DISGRESIWN AM DERFYNU CYFLOGAETH YN GYNNAR

10.1 Cyflwynodd y PSTC Simmons yr adroddiad a oedd yn nodi'r cynnydd wrth ddatblygu polisi lleol ar arfer pwerau disgresiwn mewn perthynas â thalu iawndal am derfynu cyflogaeth yn gynnar. Mae hyn ar gael i aelodau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992 (CPDT) a Chynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân 2006 (CPNDT), neu'r gweithwyr hynny sy'n gymwys i ymuno â'r cyfryw gynlluniau.

10.2 Yn yr adroddiad, gofynnwyd i'r Aelodau gymeradwyo manylion penodol y Cynllun. Serch hynny, esboniodd y PSTC Simmons fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi mynegi pryder ynglŷn â'r hyn a ystyrient yn elfen o risg gyda'r cynllun, a gofynnwyd iddynt roi eu barn ar bapur. Cafwyd cyngor gan gynghorwyr cyfraith cyflogaeth fod y cynllun yn gyfreithlon. Nodwyd hefyd fod dau wasanaeth tân ac achub arall wedi defnyddio cynllun tebyg o'r blaen.

10.3 Cynghorwyd yr Aelodau gan y Trysorydd i gymeradwyo'r cynllun mewn egwyddor, a phan fyddai cyngor terfynol wedi dod i law, gallai'r swyddogion barhau gyda'u gwaith y naill ffordd neu'r llall. Cadarnhaodd y Trysorydd y byddai angen iddo fod yn fodlon fod yr holl gynllun arfaethedig yn gyfreithlon ac yn gymesur cyn symud ymlaen ymhellach.

10.4 Atgoffwyd yr Aelodau eu bod eisoes wedi cymeradwyo cynllun y gyllideb a oedd yn cynnwys colli 22 o swyddi diffoddwyr tân yn y strwythur, ac wedi cymeradwyo cynllun tâl diswyddo gwirfoddol gyda'r gobaith o osgoi diswyddiadau gorfodol. Cafwyd esboniad pellach gan y Trysorydd fod rhywfaint o gynllunio ariannol gofalus wedi cael ei wneud i sicrhau y gallai'r Awdurdod ariannu'r cynllun, ond pe golygai fod hynny y tu hwnt i bwerau'r Awdurdod, yna ni allai ganiatáu i hynny fynd ymlaen.

10.5 Dywedodd y Clerc hefyd y dylai'r Aelodau gadarnhau eu bwriad i weithredu'r cynllun, a'u bod yn ymddiried yn y swyddogion i symud ymlaen cyn gynted ag y bo modd, yn ddibynnol ar dderbyn sicrwydd ynglŷn â chyfreithlondeb y cynllun.

10.6 Talodd yr Is-Gadeirydd deyrnged i'r gwaith a wnaed gan swyddogion, a'i bod yn bwysig cael ewyllys wleidyddol yn yr Awdurdod drwyddo draw i gydnabod y gwaith a wneir; dywedodd eto nad oedd neb yn dymuno gweld diswyddiadau gorfodol, ac mai cael cynllun sy'n anrhydeddu'n addas y rhai oedd wedi gweithio i'r Gwasanaeth dros y blynyddoedd oedd y ffordd decaf o ymdrin â'r sefyllfa. Roedd y Cyng. P R Edwards yn cytuno â theimladau'r Is-Gadeirydd, ac yn cynnig yr argymhellion gyda'r gwelliant o gael cytundeb ar y cynllun hyd oni ddeuai cadarnhad.

10.7 **PENDERFYNWYD cymeradwyo, mewn egwyddor, y cynllun tâl diswyddo gwirfoddol y cytunwyd arno'n lleol, gan gynnwys meini prawf penodol y cynllun hwnnw, a hynny ar gyfer gweithwyr sy'n aelodau o CPDT neu CPNDT, neu'r gweithwyr hynny sy'n gymwys i ymuno â'r cyfryw gynlluniau.**

11 Y DANGOSYDDION DARBODUS, STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS, Y STRATGAETH FUDDSODDI A'R POLISI ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW

11.1 Roedd yr adroddiad yn cyflwyno i'r Aelodau y Dangosyddion Darbodus, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Fuddsoddi a'r Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw ar gyfer 2012/13.

11.2 Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 30 Ionawr 2012 er mwyn i'r cynnwys gael ei adolygu cyn ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub. Mynegwyd rhywfaint o bryder ynglŷn â lefel y gwariant cyfalaf ar ystadau, a chytunwyd y byddai adroddiad arall yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub i'w hatgoffa am y strategaeth gyfalaf y cytunwyd arni. Nid oedd gan y Pwyllgor Archwilio unrhyw sylwadau arwyddocaol eraill, ac nid oeddent yn gallu canfod unrhyw risgiau arwyddocaol yn yr adroddiad, a byddent yn argymell ei fod yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod.

11.3 **PENDERFNWYD cymeradwyo pob un o'r pedair elfen allweddol a ganlyn:**
**(i) Dangosyddion Darbodus;**
**(ii) Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2012/13;**
**(iii) Y Strategaeth Fuddsoddi;**
**(iv) Y Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw.**

12 SEFYDLU PWYLLGOR MATERION CENEDLAETHOL AWDURDODAU TÂN AC ACHUB CYMRU

12.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân yr adroddiadau a oedd yn gofyn i'r Aelodau gadarnhau eu bod yn cymeradwyo sefydlu'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol.

12.2 Yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr 2011, bu'r Aelodau'n trafod dogfen yn nodi gwahanol opsiynau strategol yn ymwneud â threfniadau strwythurol ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru. Yn dilyn y cyfarfod hwnnw, roedd

rhagor o ymchwil a dadansoddi wedi eu gwneud, ac erbyn hyn roedd y cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Materion Cenedlaethol yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau i'w gymeradwyo.

12.3 Byddai sefydlu Pwyllgor Materion Cenedlaethol ar gyfer y GTAau yng Nghymru yn gwella cydweithio, darparu gwasanaethau a gwneud gwelliannau cynaliadwy i wasanaethau. Nod y Pwyllgor datblygu a gweithredu trefniadau gwell ar gyfer cael dull cydgysylltiedig o gydweithio. Byddai hynny'n cael yr arbedion effeithlonrwydd mwyaf, yn atal cyfleoedd i gydweithio rhag cael eu colli, ac yn darparu cyfrwng ar gyfer gwneud gwelliannau tymor hir i wasanaethau ymhob rhan o'r tri Gwasanaeth.

12.4 Llongyfarwchwyd y swyddogion gan y Cyng. M Ll Davies am ddogfen y cylch gorchwyl, a **PHENDERFYNODD yr aelodau**

**(i) gadarnhau eu bod yn cytuno â sefydlu Pwyllgor Materion Cenedlaethol anstatudol i ymdrin â materion cydweithredol;**

**(ii) cytuno ar y cylch gorchwyl sydd yn atodiad i'r adroddiad.**

13 CRYNODEB O'R AMCANION AR GYFER GWELLA A LLEIHAU RISG YN 2012-13

13.1 Roedd yr adroddiad yn rhoi crynodeb i'r Aelodau o'r Amcanion ar gyfer Gwella 2012-13 fel y maent yng Nghynllun yr Awdurdod ar Leihau Risg a Gwella 2010-11 hyd at 2012-13.

13.2 Esboniodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân fod yr amcanion presennol yn cael eu cario drosodd i'r flwyddyn ariannol newydd, ond gyda chamau gweithredu gwahanol. Mae amcanion 1-4 yn graidd i gyflwyno gwasanaethau, ac mae amcan 5 yn ceisio gwella'r Gwasanaeth o ran materion cynaliadwyedd. Ymdrinnir ag amcan 6 fel rhan o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a drafodwyd yn gynharach yn y cyfarfod, a bydd y swyddogion yn parhau i geisio gwella rheoli parhad busnes er mwyn cyflawni amcan 7. Amcan 8 yw'r amcan ychwanegol y cytunodd yr Aelodau arno er mwyn lleihau'r gwariant cyffredinol a gweithredu o fewn gyllideb sydd wedi ei rhewi tan 2013-14.

13.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wyth amcan ar gyfer gwella yn 2012-13.**

14 DIRPRWYO PWERAU DROS DRO CYN Y CYFARFOD BLYNYDDOL

14.1 Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad a oedd yn gofyn am gael dirprwyo pwerau o ddiwedd swydd aelodau presennol yr awdurdod tân ac achub hyd at gyfarfod cyntaf yr awdurdod tân ac achub ar ôl yr etholiadau.

14.2 Cynhelir etholiadau'r awdurdodau lleol ar 3 Mai, a bydd y cynghorwyr yn parhau yn eu swyddi hyd at ben bore Mawrth, 8 Mai 2012 pan fydd y cynghorwyr newydd-etholedig yn cychwyn ar eu swyddi. Mae'r un peth yn wir am aelodau presennol yr Awdurdod Tân ac Achub, ond mae'r dyddiad pryd y daw aelodau newydd yn eu lle yn dibynnu ar ba mor gyflym y mae'r cynghorau sir a'r bwrdeistrefi sirol yn eu penodi.

14.3 Rhwng dydd Mawrth, 8 Mai, a'r Cyfarfod Blynyddol sydd wedi ei drefnu ddydd Llun, 18 Mehefin, nid oes mecanwaith yn ei le ar gyfer unrhyw benderfyniad a fyddai'n cael ei gymryd fel arfer gan yr aelodau etholedig.

Felly, mae angen gwneud trefn briodol ar gyfer dirprwyo er mwyn ymorol am y saib fel bod modd ymdrin ag unrhyw benderfyniad a fyddai fel arfer yn gyfrifoldeb i'r aelodau ac na ellir ei ohirio'n rhesymol tan gyfarfod cyntaf yr Awdurdod Tân ac Achub ar ôl yr etholiadau ym mis Mai.

14.4 **PENDERFYNWYD y byddai holl bwerau'r Awdurdod Tân ac Achub, ei bwyllgorau a deiliaid ei swyddi, yn cael eu dirprwyo i'r:**

**(i) Prif Swyddog Tân, mewn ymgynghoriad â'r Clerc a'r Trysorydd, am y cyfnod rhwng 8 Mai 2012 hyd at <u>naill ai'r</u> dyddiad pryd y caiff Cadeirydd neu Is-Gadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub a etholwyd ym Mehefin 2011 eu hailbenodi i'r Awdurdod Tân ac Achub, <u>neu</u> gyfarfod cyntaf yr Awdurdod Tân ac Achub ar 18 Mehefin 2012 os na chaiff yr un ohonynt ei ailbenodi, pa ddyddiad bynnag yw'r cynharaf;**

**(ii) Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub os bydd un neu'r ddau ohonynt yn cael eu hailbenodi i'r Awdurdod Tân ac Achub, o'r dyddiad pryd yr ailbenodir hwy hyd at gyfarfod cyntaf yr Awdurdod Tân ac Achub ar 18 Mehefin 2012.**

14.5 **HEFYD, ni fydd y dirprwyiadau hyn yn berthnasol ond cyn belled ag y mae pwerau o'r fath yn ymwneud â phenderfyniadau na ellir yn rhesymol eu gohirio tan ddyddiad y cyfarfod cyntaf hwnnw.**

15 Y DATGANIAD POLISI CYFLOGAU

15.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi gwybod i'r Aelodau ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod lunio Datganiad Polisi Cyflogau bob blwyddyn dan Adran 38(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011. Gofynnwyd hefyd i'r Aelodau gymeradwyo'r Datganiad Polisi Cyflogau ar gyfer 2012-13.

15.2 Yn dilyn cyhoeddi adroddiad Hutton ym mis Mawrth 2011, a oedd yn gwneud nifer o argymhellion ar gyfer hyrwyddo tegwch yn y sector cyhoeddus, mae bellach yn ofynnol i awdurdodau yng Nghymru a Lloegr lunio datganiadau polisi cyflogau bob blwyddyn. Rhaid i'r datganiadau hyn gael eu cymeradwyo gan y cyngor/awdurdod llawn, a'u cyhoeddi cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol yn rhesymol wedi eu cymeradwyo.

15.3 Rhaid llunio'r datganiadau polisi cyflogau yn unol â rhan 1, pennod 8 o Ddeddf Lleoliaeth 2011, a rhaid iddynt nodi polisïau'r Awdurdod am y flwyddyn i ddod ynglŷn â thaliadau i'w prif swyddogion, y gweithwyr sy'n derbyn y cyflogau isaf a'r berthynas rhwng taliadau ei brif swyddogion a'r gweithwyr hynny nad ydynt yn brif swyddogion.

15.4 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r datganiad polisi cyflogau am y flwyddyn ariannol sydd i ddod, sef 2012/13.**

16 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU I'R AWDURDOD TÂN AC ACHUB

16.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i ofyn i'r Aelodau ystyried yr adroddiad blynyddol gan y Pwylgor Safonau, ac i gadarnhau penodiad aelod annibynnol newydd i'r Pwyllgor Safonau.

16.2 Ni fu unrhyw bryderon ynglŷn ag aelodau'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn; felly ni chyfeiriwyd unrhyw faterion i'r pwyllgor i ymchwilio iddynt nac i wneud penderfyniad yn eu cylch.

16.3 Yn dilyn diwedd cyfnod Simon Fysh yn ei swydd, cynhaliwyd cyfweliadau i ddethol aelod annibynnol newydd. Gofynnwyd i'r Aelodau gadarnhau penodiad Antony Young, yr ymgeisydd llwyddiannus, fel aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau.

16.4 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau;**

**(ii) cefnogi penodiad Antony Young fel aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau.**

17 PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL

17.1 Cafodd yr Aelodau wybod bod Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi cael ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn nodi newidiadau i daliadau i'r Aelodau a fydd yn dod i rym ar ddyddiad y cyfarfod blynyddol ar 18 Mehefin.

17.2 **PENDERFYNWYD nodi y bydd y canlynol yn dod yn weithredol ar 18 Mehefin 2012:**

**Cyflogau**

**(i) bydd cyfradd Cyflog Sylfaenol o £1,350 y flwyddyn am 16 diwrnod y flwyddyn o ymrwymiad amser yn daladwy i aelodau heblaw cadeirydd a dirprwy gadeirydd yr Awdurdod a chadeirydd y Pwyllgor Archwilio;**

**(ii) bydd cadeirydd yr Awdurdod yn derbyn Uwch Gyflog ATA yng Nghymru, sy'n cyd-fynd â chyflog Band 3 (£10,085);**

**(iii) bydd dirprwy gadeirydd yr Awdurdod yn derbyn Uwch Gyflog sy'n cyd-fynd â chyflog Band 4 (£5,095);**

**(iv) bydd cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn derbyn £3,400 o Uwch Gyflog.**

**Aelodau Annibynnol**

**(v) Bydd Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Archwilio yn derbyn ffi ddyddiol wedi ei gapio ar gyfanswm o 4 diwrnod llawn y flwyddyn ar y gyfradd a ganlyn:**

- **Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, ffi ddyddiol o £256 (£128 am hanner diwrnod)**
- **Aelod Annibynnol, ffi ddyddiol o £198 (£99 am hanner diwrnod);**

**Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth**

**(vi) lwfans gofal hyd at gyfanswm o £403 y mis;**

**(vii) cyfradd milltiroedd o 45c y filltir yn unol â chyfraddau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi;**

**(viii) cyfraddau cynhaliaeth heb newid.**

18 Y CYNLLUNIAU AR GYFER CYNEFINO AELODAU AR ÔL YR ETHOLIAD

18.1 Cafodd yr Aelodau wybod am y trefniadau cynefino ar gyfer aelodau newydd a'r rhai sy'n dychwelyd ar ôl yr etholiad.

18.2 Yn dilyn diwrnod cynefino llwyddiannus a gynhaliwyd yn 2008 ar gyfer aelodau newydd a'r rhai sy'n dychwelyd, cynigir cynnal diwrnod tebyg ar ôl yr etholiad eleni. Bydd yr Aelodau'n derbyn sesiwn gynefino 'graidd' fel rhan o'u penodiad i'r awdurdod lleol perthnasol, a thrafod rôl yr Awdurdod Tân ac Achub yn benodol y bydd y sesiwn sydd i'w chynnal ar 14 Mehefin.

18.3 **PENDERFYNWYD nodi'r trefniadau cynefino a hyfforddiant ar gyfer aelodau newydd a'r rhai sy'n dychwelyd ar ôl yr etholiad.**

19 Y BWRDD RHANBARTHOL AR GYFER CYMUNEDAU DIOGELACH

19.1 Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad a oedd yn cynnwys argymhelliad Bwrdd Arwain Rhanbarthol Gogledd Cymru i ffurfio Bwrdd Rhanbarthol ar gyfer Cymunedau Mwy Diogel a'r Cytundeb Partneriaeth a fyddai'n sail i'r Bwrdd. Fel rhan o'r Adolygiad o Bartneriaeth Gogledd Cymru, cytunwyd i sefydlu Bwrdd Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer Cymunedau Diogelach.

19.2 Ers llunio'r adroddiad, mynegwyd pryderon fod gan y bwrdd bwerau i wneud penderfyniadau gyda phwerau comisiynu statudol. Felly, penderfynwyd israddio o statws cyd-bwyllgor i bwyllgor heb bwerau statudol, ac fe allai hyn newid eto unwaith y bydd comisiynydd yr heddlu a throseddau yn ei le.

19.3 Gofynnodd y Cyng. P C Evans pwy a fyddai'n cynrychioli'r Awdurdod Tân ac Achub ar y Bwrdd, a chadarnhaodd y Clerc fod angen penderfynu ar rai manylion yn ymwneud ag aelodaeth erbyn dyddiad y cyfarfod blynyddol.

19.4 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi na fydd gan y Bwrdd statws cyd-bwyllgor, ond y bydd, yn hytrach, yn cael ei gydnabod yn bwyllgor heb bwerau statudol;**

**(ii) cymeradwyo'r cynnig i greu Bwrdd Rhanbarthol ar gyfer Cymunedau Diogelach, a bod y sefydliad yn cymryd rhan lawn yn y bwrdd o Orffennaf 2012 ymlaen, lle bo hynny'n briodol;**

**(ii) cytuno i benodi i'r Bwrdd yn y Cyfarfod Blynyddool ym mis Mehefin;**

**(iii) cefnogi'r Cytundeb Partneriaeth a oedd yn dod gyda'r adroddiad.**

20 NEWIDIADAU I'R RHEOLAU SEFYDLOG

20.1 Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad a oedd yn argymell newidiadau cynnal a chadw ar unwaith i Reolau Sefydlog yr Awdurdod, a chynnig cynnal adolygiad llwyr o'r Rheolau Sefydlog yn y cyfarfod blynyddol ym mis Mehefin.

20.2 Isod, ceir crynodeb o'r newidiadau arfaethedig:

- bod yn hyblyg o ran dyddiadau'r cyfarfodydd llawn
- cynnwys gwybodaeth am gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio
- newid y Rheolau Sefydlog i adlewyrchu teitl newydd yr is-gadeirydd, sef dirprwy gadeirydd fel y nodir yn adroddiad y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

20.3 **PENDERFYNWYD**

**(i) cymeradwyo'r newidiadau i Reolau sefydlog yr Awdurdod fel yr amlinellir ym mharagraffau 8, 9 a 10 o'r adroddiad;**

**(ii) nodi y bydd y Rheolau Sefydlog wedi cael eu hadolygu'n llwyr erbyn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mehefin.**

21 COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDAU

21.1 Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau y bydd etholiadau ar gyfer comisiynydd yr heddlu a throseddau yn cael eu cynnal ganol fis Tachwedd. Bydd rôl comisiynydd yr heddlu a throseddau yn cael pwerau comisiynu ffurfiol a phenderfyniadau am gyllidebau cenedlaethol am ddiogelwch cymunedol. Mae manylion y rôl, a sut bydd panel troseddau'r heddlu yn gweithio, yn dal wrthi'n cael eu datblygu. Yng Ngogledd Cymru, Conwy fydd y cyngor cartref a'r fan honno a fydd yn darparu'r gefnogaeth ysgrifenyddol. Darperir rhagor o wybodaeth yn y cyfarfod blynyddol.

21.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

22 COFNODION CYFARFODYDD

22.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol er gwybodaeth:

- cyfarfod y Pwyllgor Archwuilio a gynhaliwyd ar 30 Ionawr
- cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 6 Chwefror.

22.2 **PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion er gwybodaeth.**

**<u>RHAN II</u>**

23 Y STRATEGAETH A'R RHAGLEN GYFALAF

23.1 Cyflwynodd y PSTC Hanks yr adroddiad a oedd yn rhoi'r diweddaraf i'r Aelodau am strategaeth a rhaglen gyfalaf Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

23.2 Atgoffwyd yr Aelodau fod y Gwasanaeth, ers i 'Fenthyca Darbodus' fod ar gael fel ffordd i ariannu prosiectau cyfalaf, wedi cynllunio buddsoddiadau i'r ystad ar sail tair blynedd. Mae hyn yn rhan o'r strategaeth ystadau tymor hir i sicrhau bod holl adeiladau GTAGC yn addas i'r diben, ac yn cyrraedd lefel lle na fyddai ond angen costau cynnal a chadw blynyddol yn y blynyddoedd sydd i ddod. Mae'r prosiect arfaethedig ar Orsaf Dân ac Ambiwlans Wrecsam yn un o'r amcanion allweddol olaf yn strategaeth y rhaglen gyfalaf, ac mae'n cael ei adlewyrchu yn y buddsoddiad sylweddol i'r adeilad newydd hwn yn ystod y cyfnod nesaf o dair blynedd.

23.3 Mae cydweithio â gwasanaethau brys eraill yng Ngogledd Cymru yn agwedd bwysig ar y strategaeth gyfalaf oherwydd y bydd hyn yn lleihau costau adeiladu a chostau rhedeg yn y dyfodol. Bydd cyllid ar gael yn 2012/13 ar gyfer gorsaf dân a'r heddlu yn Nefyn, ac mae trafodaethau'n mynd ymlaen ynglŷn â'r posibilrwydd o brynu darn o dir ar gyfer gorsaf dân a'r heddlu yn Nhywyn.

23.4 Hefyd, cafodd yr Aelodau wybod y bydd y gwaith ar y 23 o orsafoedd mewn perthynas â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a Chydraddoldeb wedi ei gwblhau erbyn Gorffennaf 2012.

23.5 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**